

Y Grŵp Cynghori ar Ddatganiad Cymreig o Hawliau Pobl Hŷn

Adroddiad i'r Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol

Medi 2013

Y Cefndir

Bu Cymru yn arloesol wrth sefydlu Strategaeth i Bobl Hŷn yng Nghymru, Monitor Lles Pobl Hŷn a Chomisiynydd Pobl Hŷn cyntaf y byd. Mae'n ofynnol i'r Strategaeth, y Monitor a'r Comisiynydd adlewyrchu gwerthoedd Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Personau Hŷn.

Ym mis Hydref 2012, cyhoeddodd y Comisiynydd Pobl Hŷn friff i Brif Weinidog Cymru oedd yn datgan bod llawer o gamau cadarnhaol wedi'u cymryd i ddiogelu buddiannau pobl hŷn yng Nghymru ond y gellid gwneud rhagor, yn enwedig mewn perthynas â chynnal hawliau pobl hŷn. Mae Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig yn ddefnyddiol ond darganfu'r Comisiynydd mai ychydig o ystyr sydd i'r Egwyddorion i bobl hŷn yng Nghymru oherwydd nad oes ganddyn nhw berchnogaeth drostyn nhw.

Mae nifer y bobl hŷn yng Nghymru yn cynyddu a does dim set benodedig o hawliau i bobl hŷn yn y cyd-destun Cymreig. Mae gwahaniaethu a rhagfarn ar sail oedran yn cael eu goddef yn gyffredinol ar draws y byd a dylai Cymru ddangos nad ydyn ninnau'n fodlon goddef agweddau o'r fath.

Mae'r Comisiynydd wedi herio Llywodraeth Cymru i osod 'safon aur' ar gyfer ymdrin â phobl hŷn. Fe fyddai Datganiad Cymreig o Hawliau Pobl Hŷn yn dangos ymrwymiad i safon o'r fath.

Ar 11 Rhagfyr 2012, cyhoeddodd y Dirprwy Weinidog dros Blant a Gwasanaethau Cymdeithasol ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ystyried Datganiad Cymreig o Hawliau Pobl Hŷn a fyddai'n anfon arwyddion clir iawn at gyrrff statudol a darparwyr gwasanaethau, yn ogystal ag at bobl hŷn eu hunain, ynghylch y disgwyliadau yng Nghymru pan fo pobl hŷn yn cael y cymorth a'r gwasanaethau y mae arnyn nhw eu hangen i fyw bywydau annibynnol a llawn. Cyhoeddodd hefyd y byddai'r Comisiynydd yn arwain Grŵp Cynghori i roi cyngor i Lywodraeth Cymru ar gynnwys posibl, ffiniau ac effaith Datganiad o'r fath. Dyma adroddiad y Grŵp Cynghori hwnnw.

Y Grŵp Cynghori

Gwahoddodd y Comisiynydd y canlynol i fod yn aelodau o'r grŵp:

- Cynrychiolwyr rhanbarthol y Fforwm Partneriaeth Cenedlaethol
- Senedd Pobl Hŷn Cymru
- Cynghrair Henoed Cymru
- John Williams, Prifysgol Aberystwyth
- Llywodraeth Cymru

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru oedd cadeirydd y Grŵp Cynghori.

Cylch Gwaith

1. Ar ôl ystyried a dadansoddi tystiolaeth berthnasol, rhoi cyngor ar gynnwys posibl Datganiad Cymreig o Hawliau Pobl Hŷn.
2. Amlinellu'n glir sut y gellid sicrhau bod pobl hŷn yn ymwybodol o'r Datganiad a'i fanteision iddyn nhw a sut y gallant ei ddefnyddio i fynnu eu hawliau.

3. Amlinellu'n glir sut y byddai'r Datganiad yn cael ei ddefnyddio yn ymarferol gan ddarparwyr gwasanaethau a sut y gallai effeithio ar eu polisiau a'u harferion.
4. Diffinio ffiniau i'r Datganiad a nodi'r goblygiadau cyfreithiol posibl.

Datganiad Drafft o Hawliau Pobl Hŷn yng Nghymru

1. Cynnwys y ddogfen

Amgaeir Datganiad drafft. Mae'r 'dyfyniadau siarad' yn ddyfyniadau go iawn gan bobl hŷn ac maen nhw'n dangos yn gynnil sut y gall eu hawliau gael eu hanwybyddu yn ymarferol. Mae'r Datganiad wedi'i ddrafftio yn y person cyntaf fel bod modd i bobl uniaethu ag ef ar unwaith gan ei drosi i'w profiadau eu hunain.

Mae'r Datganiad drafft yn syml ac yn gryno; mae'n ddatganiad lefel uchel a does dim gormod o fanylion ynddo – mae hynny'n fwriadol. Gellir ychwanegu manylion yn nes ymlaen (gweler isod).

Efallai y bydd angen newid ychydig ar y ddogfen pan gaiff ei chyhoeddi'n ffurfiol i'w gwneud yn fwy hygyrch. Ond yn ôl yr adborth cyffredinol hyd yn hyn gan bobl hŷn, maen nhw'n hoffi'r dyluniad ac mae'r lliwiau yn bywiogi'r ddogfen.

2. Sut mae modd gwneud pobl hŷn yn ymwybodol o'r Datganiad a'i fanteision iddyn nhw a sut y gallant ei ddefnyddio i fynnu eu hawliau?

Dylid cyhoeddi'r Datganiad fel dogfen lawn a hefyd fel dogfen 'benawdau', hynny yw, yr hawliau heb y manylion na'r dyfyniadau. Gellid cyhoeddi a dosbarthu taflen/dogfen lai ar-lein ac fel copi caled. Rhaid i'r Datganiad fod ar gael mewn fformatau hygyrch.

Dylai pob corff sydd yn gweithio gyda phobl hŷn gynnwys y Datganiad ar eu gwefannau a dylent hyrwyddo ei ddefnydd, er enghraifft, Fforymau 50+, cyrff lleol a chenedlaethol i bobl hŷn a chyrrff 'ambarél. Yn y pen

draw y ffordd orau o ledaenu gwybodaeth am bethau fel hyn yng Nghymru ydy hybu 'hel straeon' amdany'n nhw, felly fe fydd cyfathrebu trwy gyfrwng amrediad eang o gyfryngau – gan gynnwys teledu cenedlaethol – yn hanfodol i wneud i hynny ddigwydd. Fe fydd llawer o bobl hŷn a chyrff yn fodlon helpu trwy ddefnyddio'u cysylltiadau a'u rhwydweithiau.

Fe fyddai gan Lywodraeth Cymru rôl mewn sefydlu'r Datganiad fel y safon i Gymru. Fe fyddai gan y Comisiynydd Pobl Hŷn rôl mewn cyflawni gwaith yn esbonio beth y dylai'r Datganiad ei olygu yn ymarferol, er enghraifft darparu hyfforddiant a dogfennau ategol.

Bydd y Datganiad yn fwyaf effeithiol o gael ei ysgrifennu mewn deddfwriaeth a chanllawiau statudol (gweler isod).

3. Sut y byddai'r Datganiad yn cael ei ddefnyddio yn ymarferol gan ddarparwyr gwasanaethau a sut y gallai effeithio ar eu polisiau a'u harferion?

Mae'r Grŵp Cynghori yn awyddus i weld y Datganiad yn cael ei gynnwys mewn contractau comisiynu a chontractau caffael ac unrhyw ddogfennau sy'n berthynol i werthoedd y darparwr gwasanaethau. Ymhen amser efallai y bydd Llywodraeth Cymru yn dyfarnu rhyw fath o 'nod barcud' i'r cyrff hynny sy'n mabwysiadu'r Datganiad ac yn rhoi ei ethos ar waith.

Unwaith eto, gallai'r Comisiynydd Pobl Hŷn ac eraill helpu i ddarparu hyfforddiant i ddarparwyr gwasanaethau a darparu adnoddau sy'n esbonio sut y byddai'r Datganiad yn cael ei roi ar waith. Mae'n hynod o bwysig bod cyrff cyhoeddus yn deall mai tanlinellu'r dyletswyddau cyfreithiol sydd ganddyn nhw eisoes, o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a Deddf Cydraddoldeb 2010 y mae'r Datganiad – a'r dyletswyddau cyfreithiol fydd ganddyn nhw o dan ddeddfwriaeth newydd fel y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) a'r ddeddfwriaeth rheoleiddio ac arolygu arfaethedig.

4. Beth ydy ffiniau a goblygiadau cyfreithiol posibl y Datganiad?

Ynndo ac ohono'i hun does gan y Datganiad ddim statws cyfreithiol – sydd yn debyg i sefyllfa Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Personau Hŷn. Ond, fel Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig, fe ellid ymgorffori'r Datganiad mewn deddfwriaeth sylfaenol. Er enghraifft, mae adran 25 o Ddeddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006 yn datgan:

“In considering, for the purposes of this Act, what constitutes the interests of older people in Wales, the Commissioner must have regard to the United Nations Principles for Older Persons adopted by the General Assembly of the United Nations on 16 December 1991.”

Mae'r Datganiad yn fesur defnyddiol i benderfynu a ydy cyrff cyhoeddus yn cyflawni canlyniadau i bobl hŷn sy'n cynnal, ac nid yn torri, eu hawliau dynol. Gallai'r Cynulliad Cenedlaethol ddewis ymgorffori'r Datganiad mewn deddfwriaeth newydd – fel y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) neu'r Bil Rheoleiddio ac Arolygu newydd – er mwyn gosod meincnod i fesur canlyniadau i bobl hŷn ac i ddyfeisio polisïau a chanllawiau sy'n ategu'r ddeddfwriaeth. Er enghraifft, gellid cael cymal sy'n datgan:

“At ddibenion y Ddeddf hon, er mwyn sicrhau bod hawliau pobl hŷn yn cael eu cynnal, rhaid i gyrff cyhoeddus a'r rhai sy'n darparu gwasanaethau ar eu rhan roi sylw i'r Datganiad o Hawliau Pobl Hŷn yng Nghymru a fabwysiadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar xxx 2014.”

Ni allai person hŷn ddod â hawliad i orfodi hawl benodol yn y Datganiad yn erbyn person arall neu gorff cyhoeddus, ond, pe bai llys yn adolygu (er enghraifft trwy adolygiad barnwrol) y modd y mae corff cyhoeddus – neu berson sy'n cyflawni dyletswyddau ar ran corff cyhoeddus – wedi cyflawni ei swyddogaethau o dan ddeddfwriaeth sylfaenol sy'n cynnwys cymal am y Datganiad (fel uchod) gallai ystyried a ydy'r corff/person sy'n cael ei adolygu wedi rhoi sylw i'r Datganiad neu beidio. Os ydy person yn dymuno dwyn hawliad uniongyrchol o hawliau dynol, fe fyddai'n rhaid

iddo ddefnyddio'r gyfraith ar hawliau dynol sy'n bodoli eisoes, megis Deddf Hawliau Dynol 1998, a dyna pam y mae'r Datganiad yn amlinellu – mewn modd sylfaenol iawn – y ddeddfwriaeth yn y Deyrnas Unedig sy'n berthnasol.

Prif nod y Datganiad fyddai newid agweddau ac arferion trwy gonfensiwn - “*dyma* sut rydym ni'n trin pobl hŷn yng Nghymru”.

Casgliad

Fel Grŵp Cyngori, gallwn ddweud y bu hon yn dasg ymestynnol ond eithriadol o foddhaol i'w chyflawni. Cafwyd digonedd o drafod a dadlau cyn drafftio'r ddogfen derfynol. Ein nod oedd rhoi pin ar bapur yn hytrach na chynnal trafodaeth academaidd gan lunio rhai egwyddorion a fydd, o'u cymryd o ddifrif, yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i'r 767,000 a mwy o bobl hŷn sy'n byw yng Nghymru.

Dyna nod y Datganiad drafft a'n gobaith ydy y bydd yn cael ei fabwysiadu ac y bydd yn arwyddocaol o ran dangos newid o ran sut yr ydyn ni yng Nghymru yn dewis edrych ar heneiddio. Fel y dywedodd un gŵr yn ddiweddar, “ Beth ydy person hŷn? Dwi ond yn meddwl am rywun sydd ddeng mlynedd yn hŷn na fi.”

Y Grŵp Cyngori ar Ddatganiad Hawliau Pobl Hŷn Medi 2013

Y gronfa dystiolaeth

“Dadansoddiad o anghydraddoldeb economaidd yng Nghymru”, Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, 2011

“Close to home: An inquiry into older people and human rights in home care”, Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, 2011

“A Framework for the Law as it Affects Older Adults: Advancing Substantive Equality for Older Persons through Law, Policy and Practice”, Comisiwn Cyfreithiol Ontario, 2012

“Pa mor deg yw Cymru?”, Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, 2011

“Human rights issues arising from the treatment of older persons in hospital and residential care”, Cymdeithas Clefyd Alzheimer, 2007

“The Human Rights of Older People in Healthcare”, Cyd-bwyllgor Tŷ'r Arglwyddi a Thŷ'r Cyffredin ar Hawliau Dynol, 2007

“In Defence of Dignity: The Human Rights of Older People in Nursing Homes”, Comisiwn Hawliau Dynol Gogledd Iwerddon, 2012

“Older People and Human Rights”, Age Concern a Sefydliad Hawliau Dynol Prydain, 2009

“Older People and Human Rights: A reference guide for professionals working with older people”, Age UK a Sefydliad Hawliau Dynol Prydain, 2011

“Amddiffyn pobl hŷn yng Nghymru: canllaw i'r gyfraith”, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, 2011

“Report of the United Nations High Commissioner for Human Rights; Older People”, Cyngor Economaidd a Chymdeithasol y Cenhedloedd Unedig, 2012

Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Personau Hŷn, 1991

“Your Human Rights: A guide for older people” (ail argraffiad), Sefydliad Hawliau Dynol Prydain, 2010

Datganiad o Hawliau Pobl Hŷn yng Nghymru

“Does yna ddim henaint. Y cyfan sydd, fel erioed, yw chithau.”

Carol Matthau 2003

Cyflwyniad

Yng Nghymru, rydyn ni'n credu na ddylid diffinio pobl yn ôl eu hoedran. Rhif yn unig ydy oedran ac ychydig iawn y mae'n ei ddweud am bobl hŷn fel unigolion a pha mor amrywiol ydyn nhw. Mae pobl hŷn yn hanfodol i gymdeithas, cymunedau a theuluoedd Cymru. Mae eu cyfraniadau wedi llunio Cymru ac fe fyddan nhw'n parhau i wneud hynny.

Mae gan bobl hŷn yr un hawliau gydol oes ag unrhyw oedolyn arall yng Nghymru, ond weithiau mae angen ein hatgoffa o'r hawliau hynny a dyma ydy diben y Datganiad hwn. Nid yw'r Datganiad yn disodli'r hawliau cyfreithiol presennol – mae'n adeiladu arnyn nhw. Dylai cyrff cyhoeddus ac eraill sy'n gweithio dros bobl hŷn gynnal yr hawliau yma.

Er bod pob gosodiad wedi'i ysgrifennu ar wahân, rhaid eu deall mewn perthynas â'i gilydd. Mae rhai o'r gosodiadau'n ategu ei gilydd. Gall eraill ymddangos fe pe baen nhw'n gwrth-ddweud ei gilydd ac fe fydd angen eu cydbwysu un yn erbyn y llall, fel sydd bob amser yn wir yn achos hawliau dynol.

Mae gen i'r hawl i fod yn fi fy hun

Dydy pob person hŷn ddim yr un fath ac mae gen i'r hawl i fod yn fi fy hun. Rwy'n berson unigryw ac mae gen i'r hawl i gael fy neall, fy ystyried a'm cydnabod fel unigolyn. Mae gen i'r hawl i gael fy nhrin yn gyfartal a heb wahaniaethu.

Mae fy ffydd yn ganolog i bwy ydw i

Mae fy anifeiliaid anwes yn bwysicach imi na phobl

Rwyf eisiau defnyddio fy iaith fy hun

Mae'r ffordd yr ydw i'n gwisgo yn dweud pwy ydw i

Rwyf am i'm cartref gofal groesawu fy mhartner o'r un rhyw

Peidiwch â'm gorfodi i ganu 'Lawr ar lan y môr'... Edward H yw fy ffefryn i.

Y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol a Deddf Hawliau Dynol 1998:

- Erthygl 8 – Bywyd Preifat a Theuluol
- Erthygl 9 – Rhyddid Crefydd
- Erthygl 10 – Rhyddid Mynegiant
- Erthygl 12 – Yr Hawl i Briodi
- Erthygl 14 – Dim gwahaniaethu o ran mwynhau'r hawliau yma

Deddf Cydraddoldeb 2010

Mae gen i'r hawl i gael fy ngwerthfawrogi

Oherwydd fy mod yn ddynol mae gen i'r hawl i gael fy ngwerthfawrogi. Mae fy mywyd yn arwyddocaol imi ac i'r rhai sy'n gofalu amdana i ac mae gen i'r hawl i fyw bywyd sydd â gwerth, ystyr a phwrpas iddo. Rwy'n cyfrif. Rwyf o werth pan rwy'n cyfrannu at y gymdeithas a phan nad ydw i'n gwneud hynny mwyach.

Y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol a Deddf Hawliau Dynol 1998 :

- Erthygl 8 – Bywyd Preifat a Theuluol
- Erthygl 14 – Dim gwahaniaethu o ran mwynhau'r hawliau yma

Mae gennyf 'leoedd i fynd iddyn nhw' a 'phobl i'w gweld' o hyd

Siaradwch **gyda** mi – nid **ata i** nac **amdana i**

Weithiau dwi'n teimlo'n anweledig, fel pe na bawn i'n bod

Dwi angen bod yn rhan o benderfyniadau am fy mywyd a'm cymuned

Dwi hapusaf pan dwi'n gwybod fy mod yn 'perthyn'

Dwi ddim eisiau triniaeth arbennig – dim ond cael fy nhrin yn gwrtais ac yn barchus

Mae gen i ewyllys rydd a'r hawl i wneud penderfyniadau am fy mywyd

Mae gen i'r hawl i wneud penderfyniadau a chael cymorth i wneud hynny os oes ei angen. Mae gen i'r hawl i ymarfer fy ewyllys rydd a gwneud dewisiadau. Pan fo penderfyniadau'n cael eu gwneud amdana i a'm bywyd, fy marn i ydy'r bwysicaf. Mae gen i'r hawl i gael cymorth i fyw'n annibynnol.

Mae bywyd i'w fyw waeth
pa oedran ydw i

Weithiau dwi angen
ychydig bach o
gymorth er mwyn byw
fy mywyd

Fi sy'n penderfynu
pryd i fynd i'r gwely a
phryd i godi

Cofiwch fy mod
yn cymryd un
llwyaid de o siwgr
yn fy nhe

Mae gwybodaeth yn
grymuso: rhowch yr
wybodaeth angenrheidiol
imi er mwyn imi wneud y
penderfyniad iawn

Fi sy'n penderfynu gyda
phwy yr ydw i'n cael
perthynas

Y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol a Deddf Hawliau Dynol 1998:

- Erthygl 8 – Bywyd Preifat a Theuluol
- Erthygl 9 – Rhyddid Crefydd
- Erthygl 10 – Rhyddid Mynegiant
- Erthygl 11 – Rhyddid Cymdeithasu
- Erthygl 12 – Yr Hawl i Briodi
- Erthygl 14 – Dim gwahaniaethu o ran mwynhau'r hawliau yma

Mae gen i'r hawl i benderfynu ble rwy'n byw, sut rwy'n byw a gyda phwy rwy'n byw

Mae gen i'r hawl i benderfynu ble rwy'n byw ac i ddewis y person neu'r bobl rwy'n treulio fy mywyd gyda nhw. Mae gen i'r hawl i fod yn fy nghartref fy hun a gyda'r gymuned yr wyf yn ei charu.

Y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol a Deddf Hawliau Dynol 1998:

- Erthygl 8 – Bywyd Preifat a Theuluol
- Erthygl 12 – Yr Hawl i Briodi
- Erthygl 14 – Dim gwahaniaethu o ran mwynhau'r hawliau yma
- Protocol 1, Erthygl 1 – mwynhau meddiannau ac eiddo

Peidiwch â'm lapio mewn gwllân cotwm

Y pentref yma ydy fy nghymuned a dwi eisiau aros yma – hyd yn oed os oes angen imi fynd i gartref gofal

Mae fy mhartner a minnau wedi penderfynu ein bod yn mynd i fyw gyda'n gilydd, ond mae pobl yn dweud na chawn ni ddim.

Fi ddewisodd y tŷ yma ac mae'n rhan ohona i bellach

Yn aml mae'n well gen i fy nghwmni fy hun

Dydw i ddim y person taclusaf ac maen nhw'n meddwl fy mod yn 'colli arnaf'! Dydy hynny ddim yn wir – mae gormod o bethau diddorol eraill i'w gwneud

Mae gen i'r hawl i weithio, datblygu, cymryd rhan a chyfrannu

Dydy fy mywyd ddim yn dod i ben oherwydd 'mod i wedi cyrraedd oedran neilltuol. Mae gen i'r hawl i weithio. Mae gen i'r hawl i gyfranogi'n llawn yn fy nghymuned fy hun. Mae gen i'r hawl i ffynnu a pharhau i ddysgu, datblygu a thyfu. Mae gen i'r hawl i gael cymorth er mwyn imi allu parhau i gyfrannu. Mae gen i'r hawl i archwilio pethau newydd.

Rwy'n hoffi bod yng nghwmni pobl ifanc – mae'n fy nghadw'n ifanc

Rwy'n dal â sgiliau a dwi eisiau eu defnyddio

Mae gofalu am fy wyrion yn hwyl, ond dim dyma'r unig beth y gallaf ei wneud

Roeddwn yn cadw llyfrau. Gofynnais i elusen leol a oedd modd imi gadw eu llyfrau - fe ddywedon nhw y byddai'n ormod imi yn fy oedran i. Dywedais wrthyn nhw am ysgrifennu ugain rhif ar hap - fe wnes adio nhw yn fy mhen ynghynt nag a wnaethon nhw ar gyfrifiannell. Fe wnaethon nhw dderbyn fy nghynnig.

Dwi newydd ymrestru ar gwrs cyfrifiaduron. Mae pobl yn dweud 'pam cyboli yn eich oedran chi?' Yn syml, dwi'n awyddus i ddysgu a dwi ddim am gollu allan ar rywbeth newydd a chyffrous.

Y Confensiwn Ewropeidd ar Hawliau Dynol a Deddf Hawliau Dynol 1998:

- Erthygl 8 – Bywyd Preifat a Theuluol
- Erthygl 9 – Rhyddid Crefydd
- Erthygl 10 – Rhyddid Mynegiant
- Erthygl 11 – Rhyddid Cymdeithasu
- Erthygl 14 – Dim gwahaniaethu o ran mwynhau'r hawliau yma

Mae gen i'r hawl i ddiogelwch, sicrwydd a

chyfiawnder

Mae gen i'r hawl i gael fy nghymryd o ddifrif pan rwy'n ofnus. Mae gen i'r hawl i wybodaeth a chyngor sy'n delio gyda fy mhryderon a'm hansicrwydd. Os ydw i angen y gyfraith i'm hamddiffyn, ddylwn i ddim cael fy nhrin yn wahanol oherwydd fy mod yn hŷn. Mae gen i'r hawl i gymryd risg hefyd os wyf eisiau.

Mae fy mywyd mor 'ddiogel' mae'n ddiflas.

Dyw hi ddim yn cymryd llawer i wneud i'm stryd i deimlo'n saff – goleuadau da ar y stryd a gweld yr heddlu bob hyn a hyn

Fe fuaswn i'n gwneud tyst da iawn

Dwi ddim eisiau diogelwch arbennig, ond dwi eisiau cael yr un diogelwch gan y gyfraith â phawb arall

Pam nad oes dim fel pe bai'n digwydd pan gaiff person hŷn ei gam-drin neu ei esgeuluso? Mae hynny'n fy ngwneud yn ddig iawn. Ydyn ni ddim yn ddigon pwysig?

Dwi'n poeni fwyaf pan nad ydw i'n gwybod beth sy'n digwydd

Y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol a Deddf Hawliau Dynol 1998:

- Erthygl 3 - Rhyddid rhag Triniaeth Annynol a Diraddiol
- Erthygl 8 – Hawl i Fywyd Preifat
- Erthygl 5 – Hawl i Ryddid a Diogelwch
- Erthygl 6 – Hawl i Wrandawriad Teg
- Erthygl 14 – Dim gwahaniaethu o ran mwynhau'r hawliau yma